# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

Cofnodion: Mawrth 2018

Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
12 hanner dydd – 1.15pm, Dydd Mawrth 6 Mawrth 2018
Cadeirydd: Lynne Neagle AC
Pwnc: Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, Gofalwyr pobl â dementia

## Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Dr Dai Lloyd AC; Craig Lawton (ar ran Suzy Davies AC); Mandy Jones AC; Julie Price (gyda Mandy Jones AC); Huw Irranca-Davies AC; Louise Hicks (Llywodraeth Cymru); Emma Homey (Llywodraeth Cymru)

Sophie Douglas (Cymdeithas Alzheimer Cymru - ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp); Morgan Griffith-David, Angie Morgan (Cymdeithas Alzheimer Cymru); Daisy Cole (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru); Bethan Edwards (DEEP); Nesta Lloyd-Jones (Cydffederasiwn GIG Cymru); Dr Natalie Elliott (Uwch Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol, BIP Caerdydd a'r Fro); Oliver John (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion)

Ceri Higgins, Nigel Hullah, Madeline Phillips (pobl y mae dementia yn effeithio arnynt / gofalwyr / gwirfoddolwyr).

## Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau

- **Croesawodd Lynne Neagle AC** bawb i'r cyfarfod
- Ymddiheuriadau: Simon Thomas AC

## Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia

- Cafodd **Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia** ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar 14 Chwefror 2018
- Awgrymodd **Lynne Neagle AC**, gan fod y Cynllun Gweithredu wedi'i fwriadu i fod yn 'ddogfen fyw', y dylai'r Grŵp ystyried sut y gall barhau i ddylanwadu ar ei ddatblygiad a'i weithrediad, a gwahoddodd sylwadau ar yr argraffiadau cychwynnol:
  - **Nigel Hullah** - pwysleisiodd mai dechrau taith hir yw hyn, ac mae cwestiynau i'w gofyn ynglŷn â'r cyflwyno a'r gweithredu; hefyd, tynnodd sylw at bwysigrwydd adborth i grwpiau cymunedol a gyfrannodd at y broses ymgynghori*
  - **Dr Natalie Elliott** - yn falch o weld y gydnabyddiaeth i'r tîm o gwmpas y person, adleisiodd gwestiynau ynglŷn â'r gweithredu; hefyd, cododd bwysigrwydd gwasanaethau cydradd ledled Cymru, a chododd y cwestiwn sut yr ydym yn sicrhau nad oes gwahaniaeth rhwng rhanbarthau
  - **Ceri Higgins** - mynegodd bryderon ynglŷn â gweithredu 'ar sail meini prawf' yn hytrach na chaniatáu i unigolion ddatgan eu hanghenion
  - **Nesta Lloyd-Jones** - awgrymodd y gall unigolion ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol os oes unrhyw elfennau o'r Adolygiad Seneddol yn arbennig o bwysig; hefyd, pwysleisiodd fod llywodraeth Cymru yn datblygu'r strategaeth iechyd

- **Daisy Cole** - croesawai’r cynllun yn gyffredinol, ac roedd cynnwys elfennau megis Ymgyrch John yn glod i Ysgrifennydd y Cabinet. Amlygodd rai pryderon hefyd:
    - Diffyg sôn am ddiogelu a risgiau
    - Dim mesur clir o eiriolaeth
    - Dim tryloywder hyd yn hyn o ran sut y bydd yr arian yn cael ei wario
    - Dim byd am gefnogaeth gan gymheiriaid o fewn y cynllun
    - Gormod o ffocws iechyd

  Mae'r bwriad yno ond mae angen bod yn fwy cydgysylltiedig, ac mae gwaith i'r grŵp ei wneud i ystyried beth sy'n cael ei fesur a sut, gan weithredu o ogwydd hawliau dynol

## Rhoddodd y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol y wybodaeth ddiweddaraf am faterion gofalwyr

- **Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia** - pwyslais ar bwysigrwydd cefnogaeth i'r gofalwr
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)** - 2 flynedd yn ddiweddarach, mae’r cynnydd yn cael ei fonitro gan brosiectau 'Track the Act' Gofalwyr Cymru ac 'Ymateb i'r Ddeddf'. Mae'n amlwg fod angen mwy o waith i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o asesiadau gofalwyr
- **3 Blaenoriaeth** - fel y nodwyd yn y datganiad ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr 2017:
    - Helpu i fyw yn ogystal â gofalu - Rhaid i bob gofalwr gael seibiannau rhesymol oddi wrth ofalu er mwyn iddynt allu parhau i wneud hynny, ac i gael bywyd eu hunain y tu hwnt i ofalu.
    - Adnabod a chydnabod gofalwyr - Os ydym am lwyddo i sicrhau canlyniadau gwell i ofalwyr, mae’n hanfodol gwella adnabyddiaeth gofalwyr o’u rôl a sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael iddynt.
    - Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth - Mae'n bwysig fod gofalwyr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir priodol ble bynnag a phryd bynnag y mae angen hynny arnynt.
- **Grŵp Cynghori’r Gweinidog** - yn cynnwys gofalwyr

## Cwestiynau i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

- **Ceri Higgins**
    - gofynnodd i'r Gweinidog gydnabod a gwneud sylwadau am gyfraniad gofalwyr di-dâl dros gyfnod yr eira, yn ogystal â gweithwyr gofal cymdeithasol sy’n cael tâl - cytunodd y Gweinidog ei bod yn bwysig cydnabod rôl gofalwyr di-dâl ac addawodd y byddai’n trydar ei gefnogaeth a'i ddiolch;
    - tynnodd sylw hefyd at y ffaith nad yw gofalwyr di-dâl yn cael yr un hyfforddiant â gweithwyr gofal cymdeithasol cyflogedig, a’i bod hi fel gofalwr wedi cael 4 diwrnod i ffwrdd mewn 8 mlynedd, gan fod seibiant yn ddrud - cytunodd y Gweinidog na ddylai seibiant dlodi pobl a’i fod yn flaenoriaeth;
- **Nigel Hullah** - tynnodd sylw at yr ymgyrch sydd ar y gorwel yn galw am i’r Lwfans Gofalwyr adlewyrchu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol - fe anogodd y Gweinidog yr ymgyrch ac, o safbwynt Llywodraeth Cymru, addawodd y 'byddwn yn ceisio rhoi'r arian mewn'. Fodd bynnag, San Steffan sy’n pennu’r Lwfans Gofalwyr;
- **Julie Price** - tynnodd sylw at y gwahaniaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn achos ei mam-yng-nghyfraith ei hun sydd â chlefyd Alzheimer - cytunodd y Gweinidog fod

gwahaniaeth rhwng gwasanaethau, rhai yn arddangos arferion da ac eraill yn llai felly, a dywedodd mai neges allweddol yr Adolygiad Seneddol yw pwysleisio'r angen am gysylltiadau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol;

- **Mandy Jones AC** - gofynnodd sut y gallwn sicrhau bod pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig ac anghysbell yn cael eu hysbysu o'u hawl i asesiadau a chymorth gofalwyr - cytunodd y Gweinidog fod hyn yn bwysig a bod angen codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl rwystrau diwylliannol, gan ddechrau drwy sicrhau bod y gweithlu'n cael yr holl wybodaeth ac yn cael ei rymuso;
- **Dr Natalie Elliott** - adleisiodd y gall fod rhwystrau yn ei gwaith hi rhag cefnogi pobl o gefndiroedd amrywiol - cytunodd y Gweinidog fod profiadau gofalwyr yn wahanol iawn o le i le, a'r her yw sicrhau'r arfer gorau ledled Cymru;
- **Daisy Cole** - dywedodd fod y goblygiadau o ran cost a diffyg adnoddau posibl yn arwain at amharodrwydd i gynnig asesiadau gofalwyr, ac y dylai'r hawl i asesiad, a phwysigrwydd asesiad, fod yn neges allweddol gan Lywodraeth Cymru i'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol;
- **Craig Lawton** - tynnodd sylw at y ffaith fod Suzy Davies AC wedi bod yn pwyso ar y Gweinidog am ddiweddariad ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

## Camau i'w cymryd erbyn y cyfarfod nesaf

- **Lynne Neagle AC** i ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol yn argymell bod gofalwyr pobl â dementia yn cael eu cynrychioli'n benodol ar Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer gofalwyr;
- **Lynne Neagle AC** i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am eglurder ynghylch sut y caiff y £10 miliwn o arian sydd ynghlwm wrth y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia ei wario, ac amlinelliad o sut y bydd y grŵp cyflawni yn monitro'r gweithredu.
- Cytunwyd y bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn trafod yr opsiynau ar gyfer parhau i ddylanwadu ar ddatblygiad a gweithrediad y Cynllun Gweithredu yn ei gyfarfod nesaf.

## Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- Dydd Mawrth 19 Mehefin 2018 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
- Dydd Mawrth 25 Medi 2018 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
- Dydd Mawrth 5 Mawrth 2019 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead
- Dydd Mawrth 11 Mehefin 2019 - Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead